

ADRODDIAD I RIENI Y COMISIWN GWRANDO



Mae'r adroddiad yn nodi chwe thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghoriadau â 50 o rieni: tai, ysgol, bwyd a maeth, materion budd-daliadau a dyled, effaith ar iechyd meddwl, a chyflogaeth.

Ar gyfer pob thema, mae'r adroddiad yn crynhoi'r hyn a ddywedodd y rhieni a'r hyn a wnaeth yr Awdurdod Lleol mewn ymateb, gan dynnu sylw at yr amrywiol fentrau, grantiau, cynlluniau, a gwasanaethau cymorth a weithredwyd neu a wellwyd. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r cynlluniau yn y dyfodol i wella mynediad at wasanaethau a'u darpariaeth ym Mlaenau Gwent, megis y Ganolfan Cymorth i Deuluoedd, y cymorth cynenedigol, a'r digwyddiadau costau byw ychwanegol.

Yn seiliedig ar awgrym gan y grŵp strategol Costau Byw, rydym wedi cynnal sesiynau gwrando gyda rhieni ym Mlaenau Gwent i ddysgu sut mae argyfwng costau byw yn effeithio ar deuluoedd.

Roedd hyn yn cynnwys siarad â grwpiau o rieni sy'n profi tlodi yn uniongyrchol. Er mwyn sicrhau newid cymdeithasol parhaol, mae angen i'r bobl sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol arwain y ffordd. Mae pob ystadegyn yn adlewyrchu bywydau pobl go iawn.

Ym Mlaenau Gwent, roeddem am roi wyneb i'r ffeithiau a helpu i greu newid yn ein cymunedau. Mae newidiadau i bolisïau a phrosesau yn helpu i leihau anghydraddoldeb yn ein cymunedau a chynnig y cyfleoedd gorau i blant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel.



Rydym wedi dysgu am y problemau ym mhob ardal, sut maen nhw'n effeithio ar deuluoedd a sut i feithrin ymddiriedaeth ac empathi rhwng teuluoedd a Chomisiynwyr.

Mae hyn wedi dangos beth sy'n digwydd pan fyddwn yn cyfuno adnoddau, straeon a phrofiadau, a pha mor hanfodol yw gwrando ar deuluoedd.

Rydym bellach yn gweithio ar themâu cyffredin y gall Comisiynwyr a theuluoedd fynd i'r afael â nhw gyda'i gilydd. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan rieni wedi'i chasglu i themâu cyffredin ac mae'n dangos yr hyn a ddywedoch chi wrthym a sut mae'r Awdurdod Lleol wedi ymateb

. Ymgynghorwyd â 50 o rieni hyd yn hyn, gyda mwy o gomisiynau gwrando wedi'u cynllunio drwy gydol y flwyddyn.



THEMÂU CYFFREDIN

AR ÔL YMGYNGHORI â 50 O RIENI HYD YMA AR Y THEMÂU ISOD, RYDYM WEDI DARGANFOD
'BETH DDYWEDOCH CHI' AND 'BETH WNAETHON NI'

TAI



YSGOL



BWYD A MAETH



MATERION BUDD-
DALIADAU A DYLED



EFFAITH AR
IECHYD MEDDWL



TANWYDD



CYFLOGAETH



COSTAU BYW



TAI

BETH DDYWEDOCH CHI

Adroddiadau am gyflwr tai gwael h.y. atgyweiriadau, lleithder a llwydni mewn eiddo. Cynnydd mewn rhenti – yn enwedig gan landlordiaid preifat.

Ymddygiad gwrthgymdeithasol. Adroddodd rhieni am amodau byw gwael ac anniogel, tyllau mewn lloriau, gollyngiadau yn yr eiddo ac ati.

BETH WNAETHON NI

Cafodd cod QR ei ddyfeisio gan Cefnogi Pobl i adrodd yn uniongyrchol am broblemau tai a chael mynediad at gymorth.

Ymatebion prydlon gan sefydliadau tai i gefnogi atgyweiriadau, lleithder a chael gwared ar lwydni. Mynychodd swyddogion tai y Comisiynau Gwrando gyda rhieni i gynnig cymorth yn uniongyrchol.

Cysylltwyd â landlordiaid preifat yn uniongyrchol a'u herio ynghylch atgyweiriadau tai wedi'u hoedi. Anfonwyd atgyfeiriadau'n uniongyrchol at lechyd yr Amgylchedd yn adrodd am yr amodau byw gwael.



YSGOL

BETH DDYWEDOCH CHI

Costau gwisg ysgol a chost uwch mynnu gwisg ysgol gyda logos ysgol. Costau ar gyfer gweithgareddau plant, crefftau, ffeiriau ysgol, tocynnau ar gyfer dramâu, sesiynau thema h.y. Wythnos y Llyfr.

Mae'r cymhwysedd gofal plant am ddim yn broses annheg, gyda dim ond rhieni sy'n byw mewn codau post penodol yn gallu cael mynediad at y ddarpariaeth hon.

BETH WNAETHON NI

Cysylltu'n uniongyrchol â'r Prif Swyddog Addysg ynghylch costau ysgol cynyddol a throsglwyddo gwybodaeth i bob Pennaeth i ofyn am leihau costau ysgol ychwanegol. Roedd hyn yn cynnwys adolygu'r cynllun logo gwisg ysgol orfodol a fabwysiadwyd ym mhob ysgol.

Gwnaed cynlluniau ailgylchu gwisg ysgol ar gael yn yr ysgolion.

Gweithredodd Teuluoedd yn Gyntaf gynllun benthyg gwisgoedd am ddim, wedi'i dargedu'n uniongyrchol at gefnogi teuluoedd ar gyfer wythnos genedlaethol y llyfr.

Bydd Cymru'n gweithredu gofal plant am ddim i bob plentyn 2-3 oed. Dyddiad i'w gadarnhau gan Lywodraeth Cymru.

Mae gan Dechrau'n Deg gynllun allgymorth i rieni sydd angen cymorth. Maent hefyd wedi gweithredu elfen gofal plant yn unig o allgymorth yn ddiweddar; fodd bynnag, mae lleoedd yn gyfyngedig.



BWYD A MAETH

BETH DDYWEDOCH CHI

Costau uchel siopa bwyd a gorfod dileu bwydydd drud o ddeiet y teulu fel cig, cynhyrchion llaeth a ffrwythau a llysiau ffres. Mae teuluoedd yn adrodd eu bod yn bwyta pasta yn bennaf gan ei fod yn ddewis arall rhatach.

Dywedodd rhieni eu bod yn diddyfnu eu babanod yn llawer cynharach nag a gynghorwyd er mwyn arbed arian ar fformiwla babanod ddud. Mae teuluoedd yn adrodd eu bod yn prynu cwdyn bwyd drud i fabanod. Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn pryderu nad oeddent yn gallu darparu prydau maethlon i'r teulu ar gyllideb mor isel ac yn aml yn mynd heb fwyd i ddarparu ar gyfer eu plant. Adroddodd rhieni bryderon ynghylch cost bwydo'r plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Nid oedd rhieni'n ymwybodol o ble y gallent gael bwyd am ddim yn eu cymuned. Nid oedd rhai rhieni'n cyrchu eu Talebau Cychwyn lach neu nid oeddent yn gymwys i dderbyn cymorth.

BETH WNAETHON NI

Cafwyd cyllid grant ychwanegol i ddarparu parseli bwyd brys, sydd ar gael ym mhob canolfan Dechrau'n Deg, eglwysi lleol, a sefydliadau tlodi bwyd.

Grant argyfwng bwydo babanod a ddarparwyd i gefnogi rhieni babanod a phlant ifanc i sicrhau bod maeth digonol ac iach ar gael, gan gynnwys fformiwla babanod a bwydydd diddyfnu ffres, sy'n addas i'w rhewi.

Cynhelir sesiynau coginio ar gyllideb yn y canolfannau Dechrau'n Deg, gyda chefnogaeth cyllid grant Tai Calon. Mae hyn yn cynnwys rhoi poptai pwyll a chynhwysion i rieni sy'n ddewis arall rhatach na defnyddio poptai a microdonnau.

Gwaith Ffit a Bwydo, Bwyd a Hwyl a Chwarae. Darparwyd sesiynau gwyliau i blant ledled yr awdurdod gan amrywiol sefydliadau yn ystod gwyliau'r ysgol fel rhan o'r cynllun newyn gwyliau.

Roedd map o'r holl ddarpariaeth bwyd am ddim ar gael trwy'r Cydlynnydd Bwyd Cynaliadwy.

Mae datblygiadau ar y gweill i ddylunio map rhyngweithiol i'r gymuned weld beth sydd ar gael.

Gweithredwyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod rhieni cymwys yn gwneud cais am eu talebau. Helpodd hyn i gynyddu'r nifer a gymerodd ran. Darparwyd gwybodaeth i'r Cydlynnydd Bwyd Cynaliadwy yn cyfleu pryderon gan rieni nad oeddent yn gymwys i wneud cais. Mae dadl seneddol wedi'i chynllunio ar ôl yr etholiadau i gydnabod y problemau wrth wneud y mwyaf o botensial y Cynllun Cychwyn lach a chynyddu'r trothwy budd-daliadau.

Mae holl staff Dechrau'n Deg wedi cofrestru i ddyrannu talebau Banc Bwyd i deuluoedd mewn angen.



MATERION BUDD-DALIADAU A DYLED

BETH DDYWEDOCH CHI

Mae rhieni'n adrodd bod ganddynt ddyled na ellir ei rheoli, CCJs, sgôr credyd gwael, dyledion cardiau credyd a chatalog, dyledion tanwydd ac ôl-ddyledion rhent, sancsiynau credyd cynhwysol.

Mewn un ardal benodol, adroddodd y gymuned fod gweithgaredd benthycu arian anghyfreithlon.

Dywedodd sawl unigolyn eu bod yn benthycu gan rai aelodau o'r gymuned ac yn gorfod ad-dalu dwbl y swm. Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn cael trafferth prynu eitemau hanfodol ar gyfer eu cartref teuluol, fel nwyddau gwyn, gwelyau digonol i'w plant, dillad ac ati. Mae rhieni'n adrodd nad oes unrhyw gymhellion ariannol i fynd yn ôl i gyflogaeth. Mae rhieni'n ofni colli eu budd-daliadau a'u hawliau, a fyddai'n eu gadael heb fod yn well eu byd yn ariannol. Pryderon ynghylch staff yr Adran Gwaith a Phensiynau a hwythau ddim yn arbennig o gymwynasgar ac yn gwneud i deuluoedd deimlo'n ddiwerth. Sancsiynau credyd cynhwysol yn gadael teuluoedd am wythnosau heb unrhyw arian. Oedi mewn budd-daliadau, sancsiynau credyd cynhwysol a phroses apelio hir.

BETH WNAETHON NI

Hybiau cymorth a chymorth mewn argyfwng ar waith mewn lleoliadau lleol h.y. llyfrgelloedd gyda gwybodaeth a chymorth ar dai, budd-daliadau, cymorth gyda chostau ynni, talebau banc tanwydd, taliadau cymorth costau byw, mynediad at fwyd ac unrhyw anghenion cymorth eraill. Helpodd hyn i wneud y mwyaf o incwm pobl a'u helpu i dalu costau byw hanfodol.

Dyfeisiwyd a lledaenwyd llyfryn cymorth a chyngor ariannol costau byw trwy'r hybiau cymorth, lleoliadau cymunedol ac ar gyfryngau cymdeithasol.

Cyngor ar Bopeth – cyfrifiadau gwell eu byd yn targedu'n uniongyrchol faterion sy'n effeithio ar gymunedau – digwyddiad Gwneud i'ch Arian Gyfrif yng nghynllun gostyngiadau y Dreth Gyngor Cefn Golau.

Bu tîm Dechrau'n Deg yn cysylltu â Siarcod Benthycu Arian Cymru a ymwelodd â'r ardal a chwblhau gweithgaredd curo drysau i siarad â'r gymuned, gan ddosbarthu taflenni a gwybodaeth am beryglon benthycu gan fenthycwyr arian anghyfreithlon a darparu opsiynau benthycu mwy diogel trwy Smart Money Cymru. Trefnwyd digwyddiad teuluol, gan dargedu'r gymuned benodol yn uniongyrchol, gyda sefydliadau cymorth ar gael i siarad â'r rhai yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol. Roedd hyn yn cynnwys Cyngor ar Bopeth, Smart Money Cymru, Siarcod Benthycu Arian Cymru, a chymorth tai. Darparwyd cinio am ddim hefyd i'r plant a ariannwyd gan Siarcod Benthycu Arian Cymru trwy gyllid elw troseddau.

Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi ac wedi gwneud cais am grantiau i deuluoedd gan gynnwys y Gronfa Cymorth Dewisol, grantiau Plant mewn Angen ac ati i sicrhau bod anghenion sylfaenol y plant a'r teuluoedd yn cael eu diwallu.

Atgyfeiriadau uniongyrchol at Gyngor ar Bopeth i wirio hawl i fudd-daliadau ac i gwblhau cyfrifiadau gwell eu byd. Cyswllt uniongyrchol â staff yr Adran Gwaith a Phensiynau i adrodd am faterion y mae teuluoedd yn eu hadrodd. Beth ddywedoch chi Beth Wnaethon Ni.



EFFAITH AR IECHYD MEDDWL

BETH DDYWEDOCH CHI

Mwy o bryder, gorbryder ac iselder wedi'u tanio gan y pryder a'r euogrwydd o beidio â gallu darparu anghenion sylfaenol eu plant. Gwaethygydd hyn hefyd gan yr euogrwydd a'r cywilydd o orfod benthyca arian gan ffrindiau a theulu, weithiau gan ddefnyddio llwybrau benthyca arian anniogel.

Oedi hir wrth gael mynediad at wasanaethau cymorth iechyd meddwl.

Meddyginiaeth gwrth-iselyddion wedi'i ragnodi oherwydd eu hamgylchiadau.

BETH WNAETHON NI

Cefnogaeth i gael mynediad at wasanaethau fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Rhieni a Babanod drwy Dechrau'n Deg.

Cafodd rhieni eu hebrwng i apwyntiadau Meddyg Teulu gan weithwyr cymorth i gael mynediad at gymorth iechyd meddwl.

Llinellau cymorth ar-lein wedi'u lledaenu drwy gyfryngau cymdeithasol.



TANWYDD

BETH DDYWEDOCH CHI

O ganlyniad i gost gynyddol nwy a thrydan, nid oedd teuluoedd yn rhoi eu gwres ymlaen ac roeddent yn treulio mwy o amser allan o'r cartref i leihau costau.

Ôl-ddyledion yn cronni gan nad oedd teuluoedd yn gallu rheoli'r cynnydd mewn costau.

Adroddodd teuluoedd eu bod yn treulio mwy o amser allan o gartref y teulu er mwyn peidio â chynyddu eu defnydd o danwydd.

BETH WNAETHON NI

Roedd talebau tlodi tanwydd ar gael yn y canolfannau cymorth ym mhob cymuned. Roedd y canolfannau cymorth hefyd yn rhoi cyngor a gwybodaeth am ddyled tanwydd.

Gweithredwyd y cynllun 'Hyb Cynnes' ledled yr awdurdod, gyda 18 ar waith i ddarparu lle i deuluoedd gael mynediad at gynhesrwydd, bwyd a chymorth. Roedd hyn yn hanfodol yn ystod cyfnod oer y gaeaf.



CYFLOGAETH

BETH DDYWEDOCH CHI

Adroddodd teuluoedd am fagl contractau dim oriau, a'r anawsterau wrth geisio rheoli'r newid a'r oedi hir yn yr addasiadau a phroses Credyd Cynhwysol.

Nid oedd unigolion yn cael eu cymell yn ariannol i ddod o hyd i waith gan y byddent yn colli eu budd-daliadau ac roedd costau gofal plant drud yn golygu na allai teuluoedd fforddio mynd yn ôl i'r gwaith gan na fyddent mewn sefyllfa ariannol well.

BETH WNAETHON NI

Mae'r tîm Busnes ac Arloesi yn annog busnesau newydd a busnesau presennol i ddileu contractau dim oriau a'u gwneud yn ymwybodol o'r heriau a'r tlodi y mae unigolion yn eu hwynebu pan fyddant yn dod i mewn ac allan o'r system fudd-daliadau.

Cyfeiriwyd unigolion at Gyngor ar Bopeth ac arbenigedd y canolfannau cymorth i gwblhau cyfrifiadau gwell eu byd gyda chymorth i gael mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth.



CYNLLUNIAU YN Y DYFODOL I WELLA MYNEDIAD AT WASANAETHAU A'U DARPARU YM MLAENAU GWENT

Hyb Cymorth i Deuluoedd – gan ganiatáu i deuluoedd gael mynediad at wasanaeth ‘un drws ffrynt’ i sicrhau y gall teuluoedd gael mynediad at unrhyw fath o gymorth lle a phryd bynnag y mae ei angen arnynt yn hytrach na llywio system atgyfeirio a chymhwysedd cymhleth.

Cynigir cymorth cynenedigol i bob darpar riant trwy Weithiwr Cymorth i Deuluoedd. Mae'r cymorth hwn hefyd yn cynnwys gwahoddiad i ddigwyddiad cynenedigol, sy'n ymgorffori partneriaid costau byw a gwrthdlodi sydd ar gael i roi cyngor ac arweiniad – gan helpu teuluoedd i arbed arian.

Comisiynau Gwranddo i'w cwblhau gydag aelodau hŷn y gymuned.

Digwyddiadau cost byw ychwanegol i'w cynnal mewn ardaloedd mwy gwledig ym Mlaenau Gwent i sicrhau bod gan bob cymuned fynediad at gymorth.

